**Enw'r Ysgol: Nebo**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

o Dengys holiaduron fod pob un plentyn yn mwyhau dod i'r ysgol a bod y staff yma i'w cadw'n ddiogel ac i ddeall y gwaith.

o Rhoi'r digon o gyfleoedd i'r plant ddod yn ymwybodol o wahaniaethau o fewn y gymdeithas mewn gwersi Addysg Grefyddol ac ABAC h. Bydd amrywiaeth eang o ymwelwyr yn ymweld a'r ysgol yn rheolaidd i ddatblygu a chryfhau eu dealltwriaeth o'r gymdeithas ehangach e.e heddlu, nyrs, criw diogelwch y ffordd.

o Mae gwasanaethau ysgol a dosbarth yn rhoi cyfle cyfartal i bawb gymryd rhan.

**Materion i gael sylw**

O Mwy o ymweliadau i addoldai a mannau crefyddol.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Rhoddir cyfleoedd yn ein cynlluniau addysg grefyddol iddynt edrych ar gwestiynau mawr y byd, i ddeall eu rhan yn y darlun mawr, gofyn cwestiynau a chymharu a rhyfeddu ar y byd o'u cwmpas.
- Mae'r ddarpariaeth ABACh yn ogystal ag arferion beunyddiol yr ysgol yn hyrwyddol gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch yn dda iawn.
- Llwydda'r ysgol i hyrwyddo cydraddoldeb hefyd drwy weithgareddau Masnach deg, Cymorth Cristnogol a Phlant Mewn angen.
- Mae hyn i gyd yn cael effaith bositif iawn ac yn arwain at ethos glos, oddefgar, cydraddoldeb a gwerthfawrogiad o amrywiaeth.
- Ar ddiwedd cyfnodau allweddol mae mwyafrif o ddigyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd deilliant 5 neu 6 yn y maes DCLLaAD a lefel 4 neu 5 ym maes Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2.

**Materion i gael sylw**

.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Daw'r ddau ddosbarth at eu gilydd 2 waith yr wythnos i addoli ar y cyd, cyfle yma i amlygu materion sy'n ymwneud a pharch at eraill ac addysg bersonol a chymdeithasol, hyn yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol moesol a chymdeithasol y disgyblion.Ceir hefyd y cyfle i edrych ar gwestiynau mawr y byd, i ddeall eu rhan yn y darlun mawr, gofyn cwestiynau a chymharu a rhyfeddu ar y byd o'u cwmpas.
- Daw y pregethwr atom yn rheolaidd i gynnal gwasanaeth a daw hyn a dimensiwn ychwanegol i gyd addoli.
- Gwahoddir y gymuned i wasanaethau a dathliadau Cristnogol yr ysgol,megis Diolchgarwch, Gwyl Ddewi a'r Nadolig yn flynyddol.
- Eleni am y tro cyntaf, cynhaliwyd cyngerdd Nadolig yr ysgol yn y Capel yn Nasareth ( ar ol iddo fod ynghau am flynyddoedd maith) Gwelwyd y gymuned ehanach yn ymuno i ddathlu ac addoli. Roedd hyn yn brofiad da iawn i'r disgyblion ac roedd pob un yn elwa o'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn sefyllfa ffurfiol .

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Dilyn rhaglen ac amserlen Addoli ar y Cŷd yn fwy pendant.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: B. Hughes (Pennaeth)

Dyddiad: 23/2/13